

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Canolfan Atgennedlu a
Gynecoleg Cymru

Dyddiad arolygu: 5 Rhagfyr 2018

Dyddiad cyhoeddi: 6 Mawrth 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	16
4.	Beth nesaf?.....	19
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol.....	20
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	21
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	22

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn a wnawn
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Atgenhedlu a Gynecoleg Cymru (y Ganolfan) ar 5 Rhagfyr 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom fod gan Ganolfan Atgenhedlu a Gynecoleg Cymru (y Ganolfan) drefniadau ar waith i hybu diogelwch a llesiant y cleifion a oedd yn ymweld â'r clinig.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Amgylchedd a chyfleusterau
- Gwybodaeth i gleifion a chyfathrebu
- Polisiâu a gweithdrefnau
- Cadw cofnodion
- Trosolwg gan y rheolwyr
- Archwilio ac adrodd.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

Ni wnaethom nodi unrhyw agweddau ar y gwasanaeth yr oedd angen eu gwella ac ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Canolfan Atgenedlu a Gynecoleg Cymru (y Ganolfan) wedi'i chofrestru fel ysbyty annibynnol yn Ely Meadows (Parc Gwyddoniaeth Feddygol), Rhodfa Marics, Llantrisant, CF72 8XL. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwasanaethau ffrwythlondeb i oedolion fel cleifion dydd. Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru gyntaf ar 30 Gorffennaf 2010.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pedwar obstetrydd a gynecolegydd ymgynghorol, tair nyrs ffrwythlondeb, tri chynorthwydd nyrsio, pedwar embryolegydd, rheolwr practis a staff gweinyddol.

Darperir ystod o wasanaethau sy'n cynnwys:

- IVF (Ffrwythloni In Vitro)
- ICSI (Pigiad Sberm Mewnsyttoplasmig)
- IUI (Ffrwythloni yn y Groth)
- Sbarduno Ofwiad a Ffrwythloni yn y Groth (OI/IUI)
- Rhoi wyau
- Rhannu wyau
- Meithrin blastosystau
- Deor â chymorth
- Rhewi embryonau
- System delweddu treigl amser EmbryoScope
- Rhewi sberm
- Llawdriniaeth i gasglu sberm.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Rhoddodd y cleifion sylwadau cadarnhaol ynghylch eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaethau a ddarperir yn y clinig.

Gwelsom fod y staff yn y clinig yn trin y cleifion yn gwrtais ac â pharch. Roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo a diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd trefniadau ar waith hefyd i'r cleifion fynegi eu barn am y gwasanaethau a ddarperir.

Cyn ein harolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael gwybod eu barn am safon y gofal a gawsant yn y Ganolfan. Derbyniwyd cyfanswm o 10 holiadur wedi'u cwblhau.

Roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn gadarnhaol iawn; roeddent o'r farn bod y gofal a'r driniaeth a roddir yn y clinig yn rhagorol, ac roedd yr holl gleifion yn cytuno bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi triniaethau a gofalu amdanynt, a bod y staff yn darparu gofal pan oedd ei angen. Ymhlith y sylwadau yn yr holiaduron am y gofal a ddarperir yn y clinig, roedd y canlynol:

"Proffesiynol ond eto i gyd yn gyfeillgar ac yn agos atoch. Hawdd iawn cael help a chefnogaeth."

"Mae fy ngŵr a minnau'n teimlo bod hwn yn lle cynnes a chroesawgar iawn. Mae'r staff yn wybodus ac yn hyddysg, mae'n amlwg bod pawb yn mwynhau'r drefn sydd yma."

"Roedd y staff wedi gwneud ymdrech ychwanegol i wneud yn siŵr ein bod ni'n deall y driniaeth."

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd gwybodaeth ar gael i'r cleifion i'w helpu i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Roedd tafenni am y gwasanaethau a gynigir yn y clinig ar gael yn rhwydd yn yr ystafell aros. Mae gan y gwasanaeth wefan hefyd sy'n nodi'r gwasanaethau a gynigir.

Urddas a pharch

Roedd yr holiaduron yn holi'r cleifion a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â nifer o ddatganiadau am y staff yn y Ganolfan. Lle bo hynny'n briodol, roedd pob claf yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais ac yn gwrando arnyn nhw a'u teuluoedd a'u ffrindiau, a dywedwyd wrthym fod y staff yn defnyddio eu dewis enwau. Dywedodd un claf wrthym:

"Mae'r staff rydyn ni wedi cyfarfod â nhw wedi bod yn wybodus iawn, yn gyfeillgar ac yn gwrtais"

Cytunodd y cleifion i gyd fod y staff wedi siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol ac wedi eu helpu i'w deall.

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod y cleifion yn cyrraedd ac yn cael eu gweld yn gyflym; nid oedd yn ymddangos eu bod yn aros am gyfnodau hir.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y cleifion a gwelsom y staff yn ymgysylltu â'r cleifion mewn modd parchus a phroffesiynol, a hynny wrth sgwrsio ar y ffôn ac wyneb yn wyneb.

Roedd gan y clinig bedair ystafell driniaeth ar y llawr daear ynghyd ag ardal aros fach, ystafell casglu samplau, theatrau a chyfleusterau labordy. Roedd y briif dderbynfa ar y llawr cyntaf ynghyd â phedair ystafell sganio/ymgyngori, dwy ystafell ymgynghori ac ystafell gynadledda/hyfforddi. Roedd toiledau priodol ar y ddau lawr.

Gwelsom fod drysau'r ystafelloedd wedi'u cau yn ystod ymgynghoriadau. Defnyddiwyd llenni preifatrwydd o gwmpas y gwelyau archwilio er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion yn ystod ymgynghoriadau neu pan oeddent yn cael triniaeth.

Roedd gwybodaeth yn cael ei harddangos a oedd yn hysbysu'r cleifion o'u hawl i gael hebryngwr pan fyddent yn cael eu gweld gan staff gofal iechyd. Defnyddir hebryngwyr er mwyn diogelu'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a'r claf pan gaiff y claf ei archwilio gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn siarad â nhw mewn ffordd gwrtais. Pe bai unrhyw glaf yn dymuno siarad â'r staff yn breifat, roedd modd defnyddio un o'r ystafelloedd ymgynghori.

Dywedodd y cleifion a wnaeth sylwadau wrthym fod y staff bob amser yn gwrtais ac yn garedig wrth roi gofal a thriniaeth.

Gwybodaeth i gleifion a chydysniad cleifion

Fel y disgrifiwyd yn gynharach, roedd rhywfaint o ddeunyddiau hybu iechyd ar gael.

Roedd y personau cofrestredig wedi llunio Datganiad o Ddiben a Chanllaw i Gleifion cyfun yn unol â'r rheoliadau. Roedd y rhain yn rhoi gwybodaeth am y clinig ac yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau a gynigir, sut y gellid cael gafael arnynt a'r trefniadau ar gyfer cydsynio i driniaeth. Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar gael hefyd ar gael cydsyniad dilys y cleifion.

Mae cael cydsyniad gan y cleifion sy'n cael triniaethau ffrwythlondeb yn rhan allweddol o'r broses. Gwnaethom drafod hyn gyda'r staff a chawsom ein sicrhau gan eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gydsyniad a'r materion cyfreithiol cymhleth sy'n ymwneud â thriniaethau ffrwythlondeb. Daethom i'r casgliad bod eu gwybodaeth am y pwnc hwn yn ddigon dwfn i wneud yn siŵr y byddent yn gwneud eu gorau glas i ymdrin â'r broses hon yn y ffordd fwyaf sensitif a gofalus bosibl, gan sicrhau bod y cleifion yn deall yr ystyriaethau cyfreithiol sy'n ymwneud â thriniaethau ffrwythlondeb yn llawn.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno ei fod wedi cael digon o wybodaeth am ei driniaeth, gan gynnwys gwybodaeth am y gwahanol driniaethau oedd ar gael ac unrhyw risgiau cysylltiedig, a gwybodaeth am y costau dan sylw.

Cyfathrebu'n effeithiol

Cadarnhaodd pob un ond un o'r cleifion yn yr holiaduron eu bod wedi cael cynnig yr opsiwn o gyfathrebu â'r staff yn eu dewis iaith.

Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a ddarparwyd yn y taflenni ac ar y wefan ar gael yn Saesneg yn unig. O ystyried bod y clinig yn gweithredu yng Nghymru, dylid gwneud mwy o ymdrech i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn.

Dylid gwneud ymdrech hefyd i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd a fformatau eraill, gan roi sylw i anghenion cyfathrebu a dymuniadau'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Roedd dolen glywed ar gael er mwyn helpu'r cleifion hynny sy'n drwm eu clyw (ac sy'n gwisgo cymhorthion clyw) i gyfathrebu â'r staff yn y clinig.

Gwelsom fod arwyddion addas yn cael eu harddangos i gyfeirio'r cleifion at y rhannau gwahanol o'r clinig.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd y trefniadau ar gyfer darparu gofal a thriniaeth wedi'u nodi'n glir yn y Datganiad o Ddiben.

Ar y cyfan, roedd y cleifion yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau'r clinig gan eu Meddyg Teulu. Gallai'r cleifion atgyfeirio eu hunain ar gyfer rhai gwasanaethau. Disgrifiwyd y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a gyflogir yn y clinig yn cynnal asesiadau cynhwysfawr o'r cleifion er mwyn nodi eu hanghenion unigol o ran gofal a thriniaeth.

Fel arfer, gwelsom fod Meddygon Teulu, wrth atgyfeirio cleifion at y clinig, yn rhoi gwybodaeth gefndir gynhwysfawr am hanes meddygol blaenorol, unrhyw feddyginiaeth sydd wedi'i rhagnodi, alergeddau ac ati.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r Datganiad o Ddiben a'r wybodaeth ar wefan y clinig yn nodi'n glir bod gwasanaethau'n cael eu darparu gan roi sylw dyledus i hawliau'r cleifion.

Roedd lleoedd parcio i bobl anabl ar gael gerllaw'r clinig a cheir mynediad gwastad, da i'r brif fynedfa. Roedd grisiau a lifft yn arwain i'r llawr cyntaf.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Roedd cyfle i'r cleifion roi sylwadau ar eu profiad o ymweld â'r clinig gyda holiaduron yn cael eu rhoi iddynt ar ôl ymgynghoriadau neu driniaethau er mwyn rhoi adborth ar sail barhaus. Roedd yr holiaduron hyn yn cael eu casglu a'u cofnodi bob mis gan arwain at gwblhau adroddiad boddhad cleifion blynyddol.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Nodwyd gennym fod y tîm staff yn ymrwymedig i roi gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Gwelsom fod gan y practis drefniadau i hybu diogelwch a llesiant cleifion, ymwelwyr a'r staff.

Roedd y clinig yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio.

Roedd trefniadau da ar waith i reoli meddyginiaethau, ynghyd â phrosesau effeithiol ar gyfer gwirio'r cyfarpar a ddefnyddir.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd hi'n ymddangos fel pe bai'r clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod mewn cyflwr da.

Gwelsom fod pob rhan o'r clinig yn lân ac yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd yr allanfeydd tân a'r llwybrau dianc wedi'u nodi'n glir. Gwelsom gofnodion i ddangos bod cyfarpar diogelwch tân a dyfeisiau trydanol cludadwy wedi'u gwirio i wneud yn siŵr eu bod yn gweithio ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd asesiadau risg cyffredinol a rhai mwy penodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y clinig. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno'n gryf fod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael er mwyn helpu i lywio'r staff ynghylch atal a rheoli heintiau. Un o'r nyrsys oedd yn bennaf cyfrifol am atal a rheoli heintiau yn y clinig. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cyfredol ar y pwnc hwn.

Roedd staff dynodedig yn cael eu cyflogi i lanhau'r ardaloedd cyffredinol yn y clinig ac roedd y staff nyrsio'n glanhau'r ardaloedd clinigol.

Roedd yr holl waith golchi yn cael ei wneud yn fewnol gan un o'r cynorthwyr gofal iechyd. Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau bod y gwaith golchi yn cael ei brosesu'n briodol ac roedd cofnodion yn cael eu cadw i ddangos bod popeth yn cael ei olchi ar y tymheredd cywir.

Roedd gwastraff hylifol yn cael ei waredu'n briodol heb halogi eitemau ac ardaloedd glân.

Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn daclus. Gwelsom hefyd fod cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff er mwyn helpu i atal croes-heintio. Roedd cyfleusterau golchi a sychu'r dwylo ar gael. Mae'n bwysig golchi dwylo'n effeithiol er mwyn helpu i atal heintiau rhag lledaenu.

Roedd rhai o'r clinigwyr sy'n defnyddio'r clinig yn cynnal mân driniaethau llawfeddygol. Roedd rhai o'r offerynnau a ddefnyddiwyd yn ystod y triniaethau hyn yn rhai un-tro i'w defnyddio â chleifion unigol tra bod offerynnau eraill yn cael eu hanfon i'r ysbyty cyffredinol cyfagos i'w sterileiddio. Roedd hyn yn golygu bod offerynnau'n cael eu dihalogi'n effeithiol ac, felly, yn hybu camau i atal a rheoli heintiau yn effeithiol. Gwelsom fod offer miniog (fel nodwyddau) wedi'u rhoi mewn cynwysyddion priodol i'w gwaredu'n ddiogel. Mae hyn yn helpu i leihau'r risg o anafiadau (staff a chleifion) a chroes-heintio gan offer miniog sydd wedi cael eu defnyddio.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisi ysgrifenedig ar gael ar reoli'r meddyginiaethau a ddefnyddir yn y clinig.

Roedd un o'r nyrsys yn gyfrifol am reoli meddyginiaethau. Roedd hyn yn cynnwys goruchwyllo'r gwaith o archebu meddyginiaethau, eu caffael, eu storio'n ddiogel a'u gwaredu. Roedd fferyllydd o'r ysbyty cyffredinol cyfagos yn ymweld â'r clinig hefyd er mwyn rhoi arweiniad a chymorth i'r staff yn ôl yr angen.

Gwelsom fod meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel dan glo yn y clinig. Cadwyd cofnodion o'r meddyginiaethau a roddwyd i'r cleifion. Roedd y cofnodion hyn yn dangos bod y cleifion wedi cael eu holi ynghylch unrhyw alergeddau hysbys er mwyn hybu eu diogelwch a'u llesiant cyn i feddyginiaeth gael ei rhagnodi/rhoi fel rhan o'r gofal a'r driniaeth a gânt.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i lywio'r staff ar y camau i'w cymryd pe byddent yn amau bod plant neu oedolion sy'n agored i niwed neu'n wynebu risg yn cael eu cam-drin. Roedd y rhain yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer y bwrdd iechyd a thimau diogelu'r awdurdod lleol. Roedd y staff a oedd yn gweithio yn y clinig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ar lefel briodol i'w swyddi. Roedd dau o'r ymgynghorwyr yn chwarae rôl arweiniol ym maes diogelu ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rhoi gwybod am faterion diogelu.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Roedd amrywiaeth o offer ar gael yn y clinig i gefnogi'r gofal a'r driniaeth a ddarperir i'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth bod yr offer hyn yn cael eu profi/calibradu yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio ac yn rhoi mesuriadau cywir.

Roedd offer a chyffuriau i'w defnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf (llewygu) ar gael ac roedd aelod dynodedig o'r staff yn eu gwirio bob dydd. Ymhellach, roedd y staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf ar ddadebru ac mae ganddynt gysylltiadau â'r swyddog dadebru yn yr ysbyty cyffredinol lleol.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Wrth drafod â'r staff ac edrych ar ddogfennaeth gofal y cleifion, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Gwelwyd tystiolaeth o waith amlddisgyblaethol da iawn rhwng y staff nyrsio, y staff meddygol a staff y labordy.

Gwelsom fod y driniaeth a'r gofal a ddarparwyd yn seiliedig ar ganllawiau arfer gorau y cytunwyd arnynt. Caiff y gwasanaeth ei arwain gan ymgynghorwyr ac mae'n cynnwys staff meddygol sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol ychwanegol sy'n benodol i'r maes gwaith hwn. Mae nyrsys ffrwythlondeb sydd wedi cael hyfforddiant arbennig yn gweithio yno hefyd. Mae gan y nyrsys hyn sgiliau ychwanegol a gallant gynnal rhai o'r triniaethau clinigol, gan gynnwys sganiau.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i gefnogi'r ffordd roedd y clinig yn cael ei weithredu. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod y gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ymarfer yn unol â chanllawiau clinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Gwelsom sampl o gofnodion meddygol y cleifion a gwelsom eu bod yn drefnus ac yn ddarllenadwy. Roedd y cofnodion a adolygwyd yn cynnwys manylion am y clinigwr a oedd yn creu'r cofnod ynghyd â digon o fanylion am y canfyddiadau clinigol a'r gofal/triniaeth a roddir i bob claf.

Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth cadarn ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a sicrhau cyfrinachedd.

Drwy archwilio cofnodion hyfforddiant, cadarnhawyd gennym fod yr holl aelodau o staff perthnasol wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Rheoli cofnodion

Canfuwyd gennym fod systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn ymwneud â chleifion a staff yn cael ei chadw'n ddiogel, a hynny yn electronig ac ar bapur.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda iawn yn y clinig, gyda'r staff yn sôn yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael gan eu cymheiriaid a'r rheolwr.

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o'r strwythur rheoli yn y sefydliad a bod y cyfathrebu rhwng y rheolwyr a'r staff yn effeithiol.

Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn gallu cael gafael ar yr hyfforddiant a'r cyfarwyddyd roedd eu hangen arnynt i gyflawni eu dyletswyddau.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd strwythur rheoli cadarn ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd clir.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod pwyslais ar wella gwasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau da, anffurfiol i oruchwylio a chefnogi'r staff o ddydd i ddydd ar waith. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad eu bod yn teimlo bod eu rheolwyr a'u cydweithwyr yn eu cefnogi yn eu rolau.

Mae'r rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol yn gweithio yn y clinig yn rheolaidd ac, felly, wrth law i gefnogi'r staff a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

Roeddem yn fodlon ar lefel yr oruchwyliaeth o'r gwasanaeth gan aelodau'r uwch dîm rheoli a'r bwrdd. Fodd bynnag, gwnaethom drafod yr angen i'r person cofrestredig sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau'n llawn o dan Reoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, mewn perthynas ag ymweld â'r clinig a llunio a rhannu adroddiadau yn dilyn ymweliadau o'r fath.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Dywedodd ychydig llai na hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym na fyddent yn gwybod sut i wneud cwyn pe byddent yn anhapus â'r gofal a ddarperir yn y clinig.

Fodd bynnag, gwelsom fod gweithdrefn gwynion ysgrifenedig ar gael, ac roedd manylion am y ffordd y gallai cleifion wneud cwyn wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Ddiben, ar y wefan ac yn y ffeil wybodaeth i gleifion yn yr ardal aros. Roedd y rhain yn nodi'r amserlenni ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion yn glir. Yn unol â'r rheoliadau, roedd manylion cyswllt AGIC wedi'u cynnwys hefyd. Adeg ein harolygiad, nid oedd unrhyw gwynion heb eu datrys.

Disgrifiwyd trefniadau ar gyfer adolygu digwyddiadau sylweddol a rhannu gwersi o'r rhain er mwyn hybu diogelwch a llesiant cleifion. Roedd digwyddiadau arwyddocaol yn cael eu cofnodi'n ffurfiol ac roedd y canlyniadau a'r gwersi i'w dysgu yn cael eu rhannu â'r staff i gyd.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwnaethom siarad â nifer o'r staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad. Roedd pob un ohonynt wedi gallu disgrifio eu rolau a'r ffordd roddent yn cyfrannu at weithrediad cyffredinol y practis. Adeg ein harolygiad, roedd gan y clinig swydd wag ar gyfer cynorthwydd gofal iechyd/derbynnnydd ac roedd cyfweiliadau wedi'u trefnu.

Roedd gwasanaethau meddygol/ymgyngori a labordy yn cael eu darparu gan y meddygon, y nyrsys a'r technegwyr a oedd yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y clinig. Roedd gwiriadau addas wedi cael eu cynnal i sicrhau eu bod wedi'u cofrestru â'r cyrff proffesiynol perthnasol.

Roedd y wybodaeth yn y ffeiliau staff a arolygwyd yn dangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant arall a oedd yn berthnasol i'w rolau.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad o ran eu perfformiad yn y gwaith o fewn y 12 mis diwethaf.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Cedwid at arferion a gweithdrefnau recriwtio'r gweithlu yn unol â rheoliadau a safonau.

Gwnaethom edrych ar gofnodion y staff a gweld bod y clinig wedi dilyn y gweithdrefnau priodol ac wedi cynnal gwiriadau recriwtio perthnasol cyn iddynt ddechrau yn y swydd.

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod pob aelod o'r staff wedi cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fel sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Atgennhedlu a Gynecoleg Cymru

Dyddiad arolygu: 5 Rhagfyr 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Nid oes angen gwelliant.				
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Nid oes angen gwelliant.				
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Nid oes angen gwelliant.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad: